

LIC. 22-38

**DEDDF YR AMGYLCHEDD
1995**

Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf
yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth
Ddichonoldeb ar gyfer
Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid)
2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cyfarwyddyd)

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cyfarwyddo Cyngor Caerdydd i gyflawni'r gweithgareddau penodedig a restrir yn yr Atodlen erbyn y terfynau amser a bennir, mewn perthynas â'i ddyletswyddau mewn cysylltiad ag Ansawdd Aer o dan Ran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac fel rhan o gynllun 2017 y DU i ymdrin â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd. O dan adran 85(7) o'r Ddeddf honno mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwn oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Rhif LIC. 22-38

DEDDF YR AMGYLCHEDD 1995

Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2022

Gwnaed 20 Medi 2022

Yn dod i rym 21 Medi 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 85(5) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(1), yn rhoi'r cyfarwyddyd a ganlyn.

Yn unol ag adran 85(6) caiff copi o'r cyfarwyddyd hwn ei gyhoeddi yn y London Gazette.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y cyfarwyddyd hwn ar ôl penderfynu bod y camau a bennir yn y cyfarwyddyd hwn yn briodol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r UE a ddargedwir o dan Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010(2).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Ansawdd Aer Deddf yr Amgylchedd 1995 (Astudiaeth

(1) 1995 p. 25. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 85(5) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru. Diwygiwyd adran 85(5)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gan reoliad 3(7) o Reoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/458).

(2) O.S. 2010/1433 Cy. 126.

Ddichonoldeb ar gyfer Cydymffurfedd Nitrogen Deuocsid) 2022.

(2) Daw'r cyfarwyddyd hwn i rym ar 21 Medi 2022.

(3) Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i Gyngor Caerdydd.

Dehongli

2. Yn y cyfarwyddyd hwn—

ystyr “awdurdod penodedig” yw Cyngor Caerdydd;

ystyr “gweithgareddau penodedig” yw'r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr Atodlen.

Gofyniad i gymryd camau penodol

3. Rhaid i'r awdurdod penodedig gwblhau'r gweithgareddau penodedig erbyn y dyddiadau a bennir yn yr Atodlen.

Julie James

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion

Cymru

20 Medi 2022

ATODLEN Erthyglau 2 a 3
Gweithgareddau Penodedig

<i>Gweithgaredd</i>	<i>Disgrifiad o'r gweithgaredd</i>	<i>Terfynau amser</i>
Gweithredu'r amrywiad parhaol o'r opsiwn a ffefrir ar gyfer Heol y Castell a nodir yn <i>Cardiff Council Clean Air Feasibility Study Revised Final Plan – October 2019</i> fel Gogledd Canol y Ddinas.	Cyflawni Cynllun Gogledd Canol y Ddinas:- <ul style="list-style-type: none"> • Lleihad lled y briffordd. • Gosod lôn feicio ar wahân ddwyffordd ar hyd Heol y Castell. 	Cyn gynted â phosibl ac yn unol â'r amserlen weithredu gytunedig.
Pe bai'n well gan Gyngor Caerdydd adolygu'r opsiynau ar gyfer cynllun parhaol ar gyfer Heol y Castell i gyflawni'r un lefel o uchelgais, neu lefel uwch o uchelgais – cynnal, fel rhan o gynllun 2017 y DU i ymdrin â chrynodiadau nitrogen deuocsid ar ymylon ffyrdd, astudiaeth ddichonoldeb yn unol â dull Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM, i nodi'r dewis amgen a fydd yn sicrhau cydymffurfedd cyson a hirdymor â'r terfynau cyfreithiol ar gyfer nitrogen deuocsid, yn y cyfnod byrraf posibl.	Cynigion cwmpasu cychwynnol: Nodi'r dull arfaethedig ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb gan gynnwys cwmpas y gwaith, y broses lywodraethu, adnoddau, y dull caffael, costau dangosol a'r amserlen.	Cyn gynted â phosibl ac erbyn 30 Medi 2022 fan bellaf.
Fel uchod.	Cynllun Cychwynnol: Cyflwyno'r achos dros newid a nodi, ystyried, dadansoddi a datblygu opsiynau ar gyfer mesurau y bydd yr awdurdod lleol yn eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfedd cyson a hirdymor yn y cyfnod byrraf posibl, gyda chostau dangosol ar gyfer yr opsiynau hynny.	Cyn gynted â phosibl ac erbyn 28 Tachwedd 2022 fan bellaf

Fel uchod.	Cynllun Terfynol: Nodi'n fanwl yr opsiwn a ffefrir (cynllun parhaol) ar gyfer sicrhau cydymffurfedd yn y cyfnod byrraf posibl, gan gynnwys achos busnes llawn sy'n nodi ystyriaethau gwerth am arian a threfniadau ac amserlen weithredu.	Cyn gynted â phosibl ac erbyn 31 Ionawr 2023 fan bellaf.
Tra'n cyflawni'r gweithgareddau penodedig, cynnal cydymffurfedd cyfreithiol â therfynau NO₂ ar Heol y Castell.	Cynllun monitro: Yn cynnwys amserlen/trothwyon, a chamau gweithredu penodol i'w cymryd, er mwyn sicrhau bod crynodiadau ar Heol y Castell yn parhau i gydymffurfio.	Cyn gynted â phosibl ac erbyn 30 Medi 2022 fan bellaf.